

PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

DYDD IAU, 21 MAWRTH 2024

PRESENNOL Cyngorydd G.H. John (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

M. Donoghue A. Evans W.T. Evans (Yn lle K. Davies)
M. James H. Jones F. Walters

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

B.A.L. Roberts C. Davies D. Owen P.T. Warlow
J. Williams

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

Y Cyngorydd J. Tremlett, Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Bracey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
J. Jones, Pennaeth Gwasanaethau Integredig dros dro
C. Richards, Uwch Reolwr Diogelu
J. Coles, Pennaeth Plant a Theuluoedd
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
K.A. Jones, Service Manager
K. Barlow, Uwch Reolwr-Anghenion Cymhleth a Throsglwyddo
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

C. Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd
D. Jones, Uwch Gyfrifydd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 1.05 yp

[Noder: Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor, yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, ei fod yn mynd i newid trefn y materion ar yr agenda.

Noder: Am 12.55pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor - Hyd y cyfarfod ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod ar waith ers bron i dair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r eitemau a oedd yn weddill ar yr agenda.]

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Davies a K. Davies.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. SEFYLLFA GYLLIDEB Y GWASANAETHAU PLANT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oeddent wedi gofyn amdano yn dilyn pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol yn y Gwasanaethau Plant.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno cefndir a chyd-destun y sefyllfa gyllidebol. Nodwyd bod y Gwasanaethau Plant, yn chwarter cyntaf 2023-2024, wedi rhoi gwybod am orwariant amcanol o £5.3 miliwn mewn perthynas â chyllideb gyffredinol o £23 miliwn. O ganlyniad, comisiynwyd ac arweiniwyd adolygiad gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnal dadansoddiad mewn perthynas â'r elfennau sy'n ysgogi'r galw a chanolbwyntio ar feysydd lle bu gorwariant sylweddol.

Nododd y Pwyllgor fod Cynllun Trawsnewid wedi'i lunio o'r dadansoddiad hwnnw a oedd yn ceisio rheoli'r galw yn y dyfodol a sicrhau cyllideb gytbwys.

Sir Gaerfyrddin oedd â'r gyfradd isaf o Blant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru fel arfer, ac roedd ganddi hefyd niferoedd isel o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cyflawnwyd hyn drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar yn ogystal â mabwysiadu dulliau arloesol o ddiogelu yn gynnar.

Dyweddodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd y bu cynnydd sylweddol yn nifer y cyfarfodydd strategaeth ac ymchwiliadau Adran 47. Mynegwyd pryder unwaith eto am y diffyg gweithwyr cymdeithasol oedd ar gael a dywedwyd bod rhaglen hyfforddeion ar waith yn yr Awdurdod a fyddai'n arwain at 10 gweithiwr cymdeithasol ychwanegol. Pryder arall a fynegwyd oedd yr angen am fwy o gapasiti a model llety newydd er mwyn lleihau'r gorwariant mewn perthynas â chyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Dyweddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol, yn dilyn y buddsoddiad sylweddol yn y maes gwasanaeth, ei bod yn hanfodol bod canlyniadau'n cael eu cyflawni ac y byddai'r rhain yn cael eu monitro'n ofalus. Byddai diweddariadau cynnydd rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Craffu.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Gofynnwyd i swyddogion a oedd cais am gyllid ychwanegol wedi ei wneud i'r Swyddfa Gartref. Dywedodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd fod y Swyddfa Gartref wedi cael ei herio ynghylch cyllid, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac y byddent yn parhau i wneud hynny. Byddai manylion y cyllid presennol yn cael eu dosbarthu i'r pwyllgor ar ôl y cyfarfod.
- Mewn ymateb i bryder ynghylch cost gofal y tu allan i'r sir i blant, dywedwyd bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud mewn tai sy'n eiddo i'r awdurdod a'r gwasanaeth maethu.
- Nodwyd bod y cyllid am gyfnod o ddwy flynedd. Cadarnhaodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd ei bod yn rhaglen 2 flynedd ac y byddai angen trawsnewid y gwasanaeth maethu yn llwyr.
- Mewn ymateb i'r pryder a fynegwyd ynghylch taliadau i weithwyr maeth, gofynnwyd a oedd y lwfans yn cael ei bennu gan yr Awdurdod neu gan gorff arall. Cadarnhaodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd fod y gyfradd yn cael ei gosod gan yr Awdurdod er bod y gyfradd isaf yn cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at yr angen am fframwaith talu tryloyw a dywedwyd bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan ymgynghori'n barhaus â gofalwyr maeth. Byddai'n rhaid i'r fframwaith ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol plant.
- Gan gyfeirio at y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn anghyfreithlon i Awdurdodau Lleol yng Nghymru leoli plant mewn cartrefi gofal preswyl preifat ar ôl 2026, gofynnwyd a fyddai gan Sir Gaerfyrddin ddigon o ddarpariaeth yn barod. Dywedodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd y byddai angen i Sir Gaerfyrddin, o ganlyniad i hyn, ddatblygu opsiynau lleol a bod yr amrywiaeth o wasanaethau preswyl a ddarperir eisoes yn tyfu a bod disgwyl y byddai'r Awdurdod yn barod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. STRATEGAETH ATAL AR GYFER SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr oeddent wedi gofyn amdano ynghylch y sefyllfa bresennol yn ymwneud â datblygu'r Strategaeth Atal ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Nodwyd nad oedd strategaeth atal ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Sir Gaerfyrddin nac ar gyfer Rhanbarth Hywel Dda a'r adroddiad agosaf o natur debyg oedd 'Atal, Ymyrraeth Gynnar, Hyrwyddo Byw'n Annibynnol Sir Gaerfyrddin: Cymuned Gydnerth' a ddatblygwyd yn 2016. Felly, cydnabuwyd bod angen strategaeth atal wedi'i diweddarau a oedd yn ystyried y sefyllfa bresennol ac yn nodi'r weledigaeth atal ar gyfer y dyfodol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod trefniadau llywodraethu rhanbarthol a lleol wedi cael eu datblygu gan sefydlu Bwrdd Atal Rhanbarthol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Dyweddod swyddogion fod rhaglen waith yn datblygu'r mentrau ataliol/cymunedol gyda sefydliadau'r trydydd sector a CGGSG. Roedd hyn hefyd yn cynnwys datblygu mentrau cymdeithasol a microfentrau.

Roedd model Gwasanaethau Ataliol Cymunedol newydd wedi'i ddatblygu - Gwasanaethau Ataliol Trydydd Sector Sir Gaerfyrddin. Dyluniwyd y model i greu cysylltiadau di-dor rhwng gwasanaethau sy'n helpu pobl o bob oed i aros yn annibynnol yn eu cymunedau neu i gael mynediad at ofal a chymorth mwy ffurfiol pan fo angen. Roedd ailgomisiynu'r gwasanaethau ataliol yn y trydydd sector wedi galluogi darparwyr i gydweithio i ddarparu cymorth hyblyg. Dywedwyd bod gan bob un o'r ardaloedd lleol ddarparwr trydydd sector arweiniol, sydd, ynghyd â phartneriaid eraill y trydydd sector, yn gyfrifol am ddatblygu mentrau yn unol ag anghenion y gymuned. Roedd y platfform Connect2Carmarthenshire yn nodi'r holl weithgareddau a chynigion.

Nodwyd bod y datblygiad microfusnesau a mentrau cymdeithasol wedi'i lansio a fydd yn darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ar gyfer gofal a chymorth personol.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Mewn ymateb i bryder a fynegwyd ynghylch dibyniaeth darparwyr gwasanaethau ar gyllid grant tymor byr fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin, dywedodd y Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd fod egwyddor cynaliadwyedd yn sail i bob menter. Dywedwyd y byddai'r cyllid cychwynnol ar gael i'w cynorthwyo i roi prosiectau ar waith yn unig ac na fyddai cyllid pellach ar gael. Byddai cymorth yn cael ei ddarparu i'w cynorthwyo i geisio cyllid arall pe bai angen.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y ddibyniaeth ar ddarparwyr gwasanaethau yn y trydydd sector, dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod gan y sector ran enfawr i'w chwarae ynghyd â'r Awdurdod. Roedd angen canolbwyntio ar atal a meithrin gwytnwch er mwyn gallu ymateb i fwy o alw yn y dyfodol.
- Gofynnwyd faint o arian a oedd wedi'i ddarparu gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r agenda ataliol ehangach. Dywedodd y Rheolwr Darparu Gwasanaethau ar gyfer Atal a Llesiant y byddai cais am gyllid yn cael ei wneud i gronfa Clwstwr Sir Gaerfyrddin. Nodwyd hefyd fod y Grŵp Atal wedi derbyn rhywfaint o gyllid gan Iechyd y Cyhoedd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. CYMORTH CYMUNEDOL A SEIBIANNAU BYR I BLANT ANABL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi dyletswyddau'r gwasanaethau plant a strwythur presennol y tîm ac yn egluro'r heriau wrth ateb galw cynyddol am wasanaethau.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Nodwyd bod Sir Gaerfyrddin yn diwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd drwy amrywiaeth o wasanaethau seibiannau byr. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu dyrannu yn dilyn asesiad o angen a gallent gynnwys arosiadau yng nghanolfannau seibiant Llys Caradog a Blaenau, a thaliadau uniongyrchol. Yn ogystal, comisiynir cefnogaeth gan sefydliadau'r sector preifat a gwirfoddol. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gymunedol, gofal cartref ac amrywiaeth o glybiau a gweithgareddau arbenigol.

Mewn ymateb i gwestiwn am y camau nesaf, dywedodd swyddogion y bydd polisi'n cael ei ddatblygu gan ymgynghori â theuluoedd a fyddai'n sicrhau y byddai dyrannu adnoddau yn deg, yn dryloyw ac yn cyfateb yn well i lefel yr angen.

Gofynnwyd pa ganran o ddefnyddwyr gwasanaeth oedd yn cael taliadau'n uniongyrchol yn hytrach na'r rhai â chyfrifoldebau rhiant/gofalwr. Dywedodd y Pennaeth Plant a Theuluoedd y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr, 2023, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhagweld gorwariant o £10,192k ar y gyllideb refeniw. Dangosodd y prif amrywiadau ar gynlluniau cyfalaf amrywiant disgwylidig o -£286k yn erbyn cyllideb net o £1,907k ar brosiectau gofal cymdeithasol, ac amrywiad o £3k yn erbyn cyllideb net prosiectau'r Gwasanaethau Plant o £517k.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Gofynnwyd a oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi'u rhagweld hyd at ddiwedd mis Mawrth. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod yr adroddiad yn seiliedig ar y ffigurau gwirioneddol ar ddiwedd mis Rhagfyr a bod yr amcanestyniadau yn seiliedig ar y ffigurau a'r tuddiadau diweddaraf a oedd yn rhoi sicrwydd bod y rhagolygon yn gywir. Dywedwyd y gallai hyn newid yn unol ag unrhyw gynnydd posibl yn y galw am wasanaethau.
- Gan gyfeirio at Atodiad F – Byw â Chymorth, gofynnwyd a oedd unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn cael eu rhagweld o ystyried cymhlethdod y galw. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y maes hwn wedi bod yn arbennig o heriol, a bod gwaith sylweddol wedi cael ei wneud. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau maint cywir pecynnau cymorth, 'camu i lawr' 32 o bobl i fyw'n fwy annibynnol, a datblygu cynlluniau llety amgen. Pwysleisiwyd yr angen am wasanaeth

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

cynaliadwy a phwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal. Roedd yr orddibyniaeth flaenorol ar ofal preswyl bellach yn lleihau a oedd wedi arwain at ganlyniadau gwell i unigolion.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24 SY'N BERTHNASOL I'R MAES CRAFFU HWN GWELEDIGAETH, CAMAU GWEITHREDU A MESUR Y CABINET

Trafododd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad - Chwarter 3 2023/24 am y Camau Gweithredu a'r Mesurau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn o ran Gweledigaeth y Cabinet. Dangosodd yr adroddiad y cynnydd fel yr oedd ar ddiwedd Chwarter 3 – 2023/24 o ran cyflawni yn erbyn Gweledigaeth y Cabinet.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch beth fyddai ehangu mynediad at gymorth i blant ac oedolion agored i niwed yn ei olygu yn Sir Gaerfyrddin, dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod y ffocws ar atal a bod atal ym maes iechyd meddwl oedolion yn dechrau gyda phlant a bod darparu cymorth cynnar i blant a phobl ifanc â phroblemau emosiynol ac iechyd meddwl hefyd yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyfeiriwyd at y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar a oedd yn dangos llwybr i Gymru a oedd yn achos pryder, lle roedd y ffigurau yn cynyddu. Cadarnhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod sesiwn ddatblygu wedi'i threfnu gyda'r Pwyllgor lle byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu.
- Gofynnwyd a oedd yr amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau seiciatrig wedi gwella. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn anffodus, fod yn rhaid i blant aros am atgyfeiriadau o hyd, ond gwelwyd rhywfaint o welliant wrth gyflwyno'r gwasanaeth 111 a lanswyd yn 2022 (Un Pwynt Mynediad).
- Gan gyfeirio at y problemau yn ymwneud â chanran y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol am beth oedd y problemau. Dywedodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion y byddai'n gofyn i'r Pennaeth Hamdden am y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

9. ADRODDIAD PERFFORMIAD - CWARTER 3

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 3, a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed gogyfer â'r camau gweithredu a'r mesurau yn y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor fod 94% o'r camau gweithredu a'r mesurau ar y trywydd iawn yn gyffredinol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION A THREFNIADAU
DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS) (2022/23)**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn manylu ar y rôl, y swyddogaethau a'r gweithgareddau a wnaed gan yr Awdurdod mewn perthynas â Diogelu Oedolion a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar gyd-destun presennol Diogelu/DoLS a'r trefniadau yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi'u rhoi ar waith. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, fel y sefydliad statudol sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion, ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gael trefniadau effeithiol i sicrhau bod oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag niwed. Roedd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni'r rôl hon mewn partneriaeth agos â Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill.

Nododd y Pwyllgor mai'r Awdurdod Lleol oedd y corff Goruchwylio hefyd ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a oedd yn sicrhau bod rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu'n briodol.

Dywedodd swyddogion nad oedd y fframwaith (diogelu) cyfreithiol newydd arfaethedig ar gyfer craffu ac awdurdodi Amddifadu o Ryddid wedi'i gwblhau a'i ddsbarthu eto gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cyfeiriwyd at y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a ddarparodd y cyfeiriad strategol a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu oedolion yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ac a gryfhaodd ddull Sir Gaerfyrddin o sicrhau hawliau pob unigolyn i fyw bywyd heb gael ei gam-drin na'i esgeuluso.

Dywedodd swyddogion y barnwyd nad oedd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn "addas i'r diben", a hynny'n rhannol oherwydd y gofyniad i ailasesu pobl yn anghymesur yn flynyddol pan oedd yn annhebygol y byddai eu hamgylchiadau'n newid. Dywedwyd bod y trefniadau DoLS presennol, yn dilyn ymgynghoriad, yn cael eu disodli gan ddeddfwriaeth newydd, a'u hailenwi'n Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid. Y dyddiad cychwynnol ar gyfer cyflwyno Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid oedd Hydref 2020 ond roedd y dyddiad hwn wedi newid sawl gwaith ac nid oedd dyddiad wedi'i gadarnhau eto.

Yn dilyn ymholiad a wnaed mewn perthynas â'r amwysedd ynghylch yr amserlen 7 diwrnod, eglurwyd bod y 7 diwrnod yn glir ond mai'r disgwyliadau o'r hyn yr oedd angen ei gyflawni o fewn y 7 diwrnod oedd yn amwys. Mewn achos lle roedd angen ymchwiliad gan yr heddlu, ni fyddai modd cyflawni hyn o fewn 7 diwrnod. Roedd gwaith partneriaeth yn mynd rhagddo i ddatblygu gweithdrefn a rhoi eglurder i ymarferwyr ynghylch yr hyn sydd angen ei sefydlu.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

11. BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o amcanion a chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y canlyniadau a bennwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'r Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd.

Cyfeiriwyd at y buddsoddiad a'r amser sylweddol a roddwyd drwy gydol y flwyddyn i gefnogi datblygu proses newydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SURS), gan gynnwys datblygu'r canllawiau statudol drafft a gyhoeddwyd yn gynnar yn y flwyddyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

12. POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r Polisi Diogelu Corfforaethol.

Cyfeiriwyd at adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2023 a oedd yn argymhell adolygu'r Polisi Diogelu Corfforaethol sy'n ymdrin â holl feysydd gwasanaeth y cyngor.

Mae'r polisi'n nodi'r cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl ac yn sefydlu strwythur llywodraethu a oedd yn goruchwyllo'r trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Mae'n nodi'r dulliau a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau a bod arferion effeithiol ar waith i gynorthwyo unigolion i fyw eu bywyd yn rhydd o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod mewn ystod eang o leoliadau gan gynnwys y cartref, yr ysbyty, yr ysgol, amgylcheddau dysgu, grwpiau cyfoedion/cyfeillgarwch, cymdogaethau, cymunedau a mannau ar-lein.

Dywedodd swyddogion fod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn darparu fframwaith ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth a Maes Gwasanaeth o fewn ac ar draws y Cyngor ac yn nodi'r dulliau a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau a bod arferion effeithiol ar waith i gynorthwyo unigolion i fyw eu bywyd yn rhydd o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod mewn ystod eang o leoliadau gan gynnwys y cartref, yr ysbyty, yr ysgol, amgylcheddau dysgu, grwpiau cyfoedion/cyfeillgarwch, cymdogaethau, cymunedau a mannau ar-lein.

Nododd y Pwyllgor fod sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff wedi'u trefnu a bod sesiwn briffio wedi'i threfnu ar gyfer yr aelodau ar 8 Mai.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

13. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

14. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 2 Mai 2024, ynghyd â chynnwys yr adroddiad ynghylch sefyllfa gyllidebol y Gwasanaethau Plant.

15. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25AIN IONAWR, 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 25 Ionawr 2024 gan eu bod yn gywir.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf